COLEG CATHOLIG DEWI SANT

# Polisi Derbyn a Dilyniant

**Datganiad Cenhadaeth**

Mae Datganiad Cenhadaeth y Coleg yn amlinellu blaenoriaethau derbyn y Coleg:

"**Coleg Catholig ar gyfer y gymuned**, sy'n ceisio darganfod a gwireddu potensial llawn pawb mewn awyrgylch o gariad, gwasanaeth a pharch a symbylwyd gan Grist".

Yn unol â dysgeidiaeth gymdeithasol yr Eglwys Gatholig, mae'r Coleg yn ceisio darparu "dewis ffafriol i'r tlodion". Rhan hanfodol o'n cenhadaeth fel sefydliad Catholig, felly, yw gwasanaethu'r llai ffodus a'r rhai sydd ar gyrion cymdeithas, yn enwedig yn nhermau tlodi ysbrydol a materol. Caiff y bwriad hwn ei fynegi drwy ein dull o farchnata, cysylltu, a recriwtio. Dethlir yr amrywiaeth o fewn ein cymuned fel nodwedd sydd er lles pawb, a chaiff ei hadlewyrchu drwy ein hymddygiad, diwylliant, a strwythur fel Coleg.

**1. Ystod a Phwrpas**

1.1 Nod y Coleg ydy ceisio cyflawni anghenion y gymuned Gatholig, a'r gymuned ehangaf, yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Drwy hyn, ymdrecha'r Coleg i recriwtio **dysgwyr o gefndiroedd cymdeithasoleconomaidd eang,** fel yr adlewyrchir yn Nemograffeg ein Pedair Ysgol bartner. O'r rhain, mae dwy ysgol, sef 'Mary Immaculate' yn ardal Eli a 'St Illtyd's' yn ardal Rhymni, wedi'u lleoli mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol, fel y nodwyd yn **Rhaglen Lywodraeth Cymru, sef 'Cymunedau yn Gyntaf'.**

1.2 Mae'r Coleg wedi ymrwymo i weithredu proses dderbyn deg a thryloyw sy'n ystyried pob ymgeisydd yn ôl eu teilyngdod yn gyson ac yn ddi-duedd. Bydd egwyddorion y Polisi hwn yn berthnasol i bob cais ac ymholiad am gwrs.

1.3 Bydd y Coleg wrth brosesu ceisiadau yn glynu at ei Bolisïau ar Gydradddoldeb ac Amrywiaeth, Iechyd a Diogelwch, Cyfarwyddyd Gyrfaol, Dyletswydd Gofal, Diogelu Plant, UCAS, Ffioedd, Disgyblu Myfyrwyr, a Diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed.

1.4 Mae'r Coleg wedi ymrwymo i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a bydd yn ymdrechu i gynorthwyo ac i ddelio ag anghenion siaradwyr Cymraeg yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Coleg.

1.5 Nod y Coleg ydy cynnig darpariaeth briodol ar gyfer cyrsiau, fodd bynnag, ni fyddai ei gyrsiau na'i adnoddau yn briodol i bob ymgeisydd. Yn yr achosion hyn, bydd y Coleg yn cyfeirio ymgeiswyr at y Gwasanaeth Gyrfaol, Y Gwasanaeth Cyflogaeth neu at unrhyw asiantaeth ategol arall i gael cyfarwyddyd diduedd am gyfleoedd addysgol a hyfforddiant.

1.6 Mae'r Coleg wedi ymrwymo i weithio'n aml-asiantaethol, a bydd, lle bo'n briodol, yn rhannu gwybodaeth am ymgeiswyr sy'n cymryd rhan mewn trefniadau aml-asiantaethol, yn unol â Pholisi'r Coleg

ar Ddiogelu Data. Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr a Diogelu fydd y cyswllt allweddol ar gyfer yr Asiantaethau hyn.

**2. Rheolaeth a Threfniadaeth**

2.1 Y Pennaeth Cynorthwyol: Gwella Ansawdd a Taith Myfyrwyr sy'n gyfrifol am dderbyn myfyrwyr.

2.2 Cyflwynir Adroddiadau Gwybodaeth y Rheolwyr Derbyn i'r Uwch Dîm Rheoli yn rheolaidd.

2.3 Bydd y Rheolwr Derbyn yn trefnu cyfweliadau ar gyfer pob ymgeisydd.

2.4 Bydd disgwyl i'r holl staff sy'n cynnal sesiynau arweiniad fynychu sesiynau briffio staff a byddant yn derbyn gwybodaeth a hyfforddiant derbyn cyn sesiynau arweiniad.

2.5 Caiff ceisiadau Dysgu a Derbyniadau ar-lein eu prosesu gan y Rheolwr Derbyn.

2.6 Caiff ceisiadau gan fyfyrwyr rhyngwladol eu prosesu gan y Rheolwr Rhyngwladol yn unol â Pholisi Rhyngwladol y Coleg a gofynion Asiantaeth Ffiniau'r DU.

2.7 Ni all y Coleg wneud cynnig i astudio nes bod gwiriadau 'Hawl i Astudio' wedi'u cynnal. Mae hyn yn cynnwys aelod o staff y Coleg yn gwirio dogfennau adnabod perthnasol ym mhresenoldeb ymgeisydd ac yn cymryd copi i'w gadw ar gofnod.

2.8 Os oes gan ymgeisydd fisa, a bod hwn yn dod i ben; mae'n ofynnol i fyfyrwyr ddarparu fisa wedi'i adnewyddu a dilys i'r Coleg.

**3. Blaenoriaethau Derbyn**

Fel Coleg dynodedig Gatholig, mae gofyn i Dewi Sant roi blaenoriaeth i ymgeiswyr Catholig, er bod y Coleg yn dymuno cynnig ei wasanaethau i fyfyrwyr o'r gymuned ehangach a fyddai'n elwa o'i ethos penodol.

**Mae'r meini prawf canlynol yn berthnasol i flaenoriaethu'r derbyn.**

i. Myfyrwyr sy'n ddisgyblion ac yn gyn-ddisgyblion o'n hysgolion partner Ysgol Corpus Christi, Ysgol Mair Fendigaid, Ysgol Illtyd Sant, Ysgol Sant Richard Gwyn.

ii. Myfyrwyr Catholig o ysgolion eraill yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.

iii. Myfyrwyr Catholig eraill o fewn y rhanbarth na all eu darpariaeth leol Gatholig ôl 16 gwrdd â'u hanghenion neu fyfyrwyr sy'n symud i mewn i'r ardal

iv. Myfyrwyr sydd wedi astudio yn y Coleg yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf fel rhan o Rwydwaith Addysg Ffydd.

v. Chwiorydd neu frodyr myfyrwyr sydd wedi astudio yn y Coleg yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf (rhoddir ystyriaeth i amgylchiadau arbennig).

vi. Myfyrwyr ag anghenion addysgol arbennig y tybir neu a ganfyddir mai'r coleg fyddai'r darparwr gorau.

vii. Myfyrwyr o'r ddarpariaeth 11-16 o fewn yr ardal sy'n dibynnu ar y Coleg i gael cyfle i ddatblygu dimensiwn crefyddol ac ysbrydol eu bywydau.

viii. Myfyrwyr o enwadau Cristnogol eraill a phrif grefyddau eraill y byd sydd am i'r Coleg roi cyfle iddyn nhw ddatblygu dimensiwn crefyddol ac ysbrydol eu bywydau.

ix. Myfyrwyr y bydd eu presenoldeb yn y Coleg yn cyfrannu at y gymuned neu gynorthwyo i wneud darpariaeth y cwricwlwm yn ymarferol.

x. Myfyrwyr eraill sy'n dibynnu ar y Coleg am gyfle i ddatblygu dimensiwn crefyddol ac ysbrydol eu bywydau.

**4. Egwyddorion Cyffredionol**

4.1 Bydd y Rheolwr Derbyn yn gwahodd pawb sydd wedi gwneud cais am raglen lawn amser i gyfweliad yn y Coleg.

4.2 Er mwyn sicrhau bod y broses Dderbyn yn glir ac yn cael ei dilyn yn deg a chyson, defnyddir gofynion mynediad tryloyw yn sail i benderfyniad i dderbyn myfyrwyr i'r Coleg. Ceir y meini prawf cyfredol ar gyfer mynediad yn Atodiad 1. Caiff meini prawf mynediad eu hadolygu'n flynyddol gan yr Uwch Dîm Rheoli. Mae hyn yn cynnwys, lle bo'n briodol, oed yr ymgeisydd, cymwysterau'r ymgeisydd adeg mynediad ac agwedd yr ymgeisydd at astudio.

4.3 Gall methu â datgelu gwybodaeth neu roi gwybodaeth anghywir ar ffurflen gais olygu bod cynnig yn cael ei dynnu nôl.

4.4 Caiff yr holl ymgeiswyr eu gwahaodd i gyfweliad derbyn ac ar ôl hynny gwneir cynnig amodol neu ddiamod iddyn nhw a chymryd yn ganiataol bod yr ymgeiswyr yn cwrdd â lefel a meini prawf mynediad y cwrs.

4.5 Cadarnheir cynigion amodol ym mis Awst bob blwyddyn ar ôl i ganlyniadau TGAU gael eu cyhoeddi yn ystod y broses gofrestru.

4.6 Caiff ymgeiswyr sy'n cwrdd â gofynion eu cynnig eu gwahodd i sesiwn ymrestru'r Coleg.

4.7 Caiff ymgeiswyr sydd ddim yn cwrdd â gofynion eu cynnig eu cyfeirio at Gyrfa Cymru neu asiantaethau cymorth eraill am gyfarwyddyd di-duedd am gyfleoedd addysgol a hyfforddiant eraill lle na all y Coleg gynnig rhaglen astudio amgen addas.

4.8 Bydd disgwyl i ymgeiswyr ddatgelu angen addysgol neu feddygol sydd wedi'i ddiagnosio. Os bydd yr ymgeisydd yn datgelu angen addysgol neu feddygol, bydd y cais yn cael ei anfon ymlaen at y tîm Cymorth

Dysgu i'w ystyried. Os na fydd ymgeisydd yn datgelu angen addysgol neu feddygol sydd wedi'i ddiagnosio, ni all y coleg sicrhau y bydd cymorth ar gael.

4.9 Mae gofyn i ymgeiswyr sydd eisoes yn astudio yn y Coleg ac sy'n dymuno symud ymlaen i gwrs arall gwblhau proses Ffurflen Gais y Coleg a fydd yn amodol ar y broses sgrinio uchod. Rhoddir blaenoriaeth i fyfyrwyr newydd y Coleg.

4.9.1 Os na all y Coleg gynnig lle, caiff yr ymgeisydd ei gyfeirio at Gyrfa Cymru neu asiantaethau cymorth arall am gyfarwyddyd di-duedd ar gyfleoedd addysgol a hyfforddiant eraill.

**5. Ymgeiswyr â Gwybodaeth i'w Datgelu**

5.1 Yn unol â threfniadau'r Coleg ynglyn â Diogelu a Dyletswydd Gofal, mae gofyn i ymgeiswyr ddatgelu manylion o unrhyw gyhuddiad dan ystyriaeth yn eu herbyn, euogfarnau troseddol, unrhyw rybudd neu gerydd, rhybuddion terfynol a gorchmynion rhwymol wrth wneud cais i'r Coleg. Anfonir Ffurflen Ddatgelu at unrhyw ymgeisydd sydd wedi ateb yn gadarnhaol i'r cwestiwn am euogfarnau troseddol neu gyhuddiad dan ystyriaeth i'w dychwelyd at y Tîm Gweinyddu Ceisiadau.

5.2 Mae'r Coleg yn gweithredu Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ac felly, os oes gan ymgeisydd ddatgeliad neu os ydy wedi'i eithrio yn flaenorol ni fydd hynny o anghenrhaid yn rhwystro unigolyn rhag ymuno â chwrs. Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar natur y cwrs y gwnaed cais amdano a'r amgylchiadau.

**6. Apêl**

6.1 Hysbysir unrhyw fyfyriwr y cafodd ei gais/ei chais ei wrthod yn y lle cyntaf yn ysgrifenedig am eu hawl i apelio yn erbyn penderfyniad o ran eu cais am le yn y Coleg.

6.2 Dylid apelio yn ysgrifenedig at Bennaeth y Coleg o fewn pymtheg diwrnod gwaith o'r dyddiad y cadarnhawyd y penderfyniad gan y Coleg a dylai ddatgan ar ba seiliau penodol y gwneir yr apêl.

6.3 Y Pennaeth neu aelod o'r Tîm Rheoli Uwch fydd yn ystyried pob apêl a byddan nhw'n cymharu teilyngod apeliadau gan ymgeiswyr eraill. Hysbysir yr ymgeisydd yn ysgrifenedig am ganlyniad yr apêl.

**7. Dilyniant i'r Chweched Uchaf / 2$^{ail}$ Flwyddyn y Coleg**

7.1 Er mwyn i ddysgwyr UG symud ymlaen i'r ail flwyddyn (fel y cyfeirir ati weithiau fel 'Safon Uwch'), bydd angen o leiaf gradd D. Yr unig eithriad i hwn yw bod angen Gradd C i symud ymlaen I Safon Uwch Mathemateg Pellach.

7.2 Er mwyn i ddysgwyr galwedigaethol symud ymlaen i'r ail flwyddyn, rhaid cwblhau pob un o'r chwe uned, gyda gradd 'Pasio' o leiaf.

**Atodiad 1**

**Meini Prawf Mynediad ar gyfer pob Rhaglen**

8. Ni all ymgeiswyr fod dros 19 oed adeg mynediad i'r coleg. Y rheswm dros hyn ydy cynnal ethos chweched dosbarth y coleg.

9. I gael ymrestru ar raglenni lefel 3, rhaid i ymgeiswyr gwrdd â'r meini prawf canlynol:

a) Bydd dysgwyr sy'n meddu ar o leiaf 6 TGAU ar radd C neu'n uwch yn astudio 3 chwrs UG. Bydd myfyrwyr sy'n meddu ar gymysgedd o raddau A a B yn TGAU yn cael eu hystyried i astudio 4 cwrs UG. Mae gan gyrsiau unigol lefel 3 eu meini prawf mynediad eu hunain. Mae meini prawf mynediad cyrsiau unigol ar gael ar wefan y coleg.

b) Dim ond cyrsiau galwedigaethol lefel 3 y bydd dysgwyr sy'n meddu ar gymwysterau galwedigaethol lefel 2 cyfwerth â 5 TGAU yn gallu eu hastudio.

10. I gael ymrestru ar gwrs lefel 2, bydd rhaid i ymgeiswyr gwrdd â'r meini prawf mynediad canlynol:

a) Bydd dysgwyr sy'n un ar bymtheg oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, gyda phroffil gradd TGAU o 4 TGAU gradd D neu uwch yn astudio cwrs galwedigaethol Lefel 2 gyda'r opsiwn i ailsefyll TGAU Mathemateg neu Saesneg os oes angen. Gellir cynnig llwybr Lefel 1 i fyfyrwyr sydd â llai na 4 gradd D mewn TGAU.

b) Bydd dysgwyr â phroffil graddau TGAU yn cynnwys graddau 'D' ac 'E' yn astudio cwrs galwedigaethol lefel 2 gydag opsiwn i ail-sefyll Mathemateg a Saesneg TGAU os oes angen.

10. Bydd ymgeiswyr sy'n meddu ar broffil TGAU 'E' yn bennaf o raddau yn cael ymrestru ar gwrs lefel
1.